



Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy

ADRODDIAD BLYNYDDOL





CYNNWYS



01 | CYFLWYNIAD

02 | CYDNABYDDIAETH

03 | CYFLWYNO'R CLWSTWR UWCHRADDIO CYNALIADWY

04 | GYDA PHWY RYDYM YN GWEITHIO

05 | EIN CANFYDDIADAU

06 | YSTYRIAETHAU POLISI

07 | BETH NESAF

08 | ATODIAD 1 – GRŴP CYNGHORI'R CLWSTWR UWCHRADDIO CYNALIADWY

Mae'r prosiect hwn wedi cael arian drwy gynllun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru. Cyflwynwyd gan BIC Innovation.





CYFLWYNIAD

“

“MAE’R CLWSTWR YN RHOI CYFLE I AELODAU DDYSGU ODDI WRTH EI GILYDD, CRYFHAU EU GWYBODAETH A’U DEALLTWRIAETH ARIANNOL AC EHANGU EU RHWYDWEITHIAU ER MWYN DOD O HYD I’R CYLLID IAWN AR Y CAM IAWN YN EU TWF.”

Fel Prif Swyddog Cyllid Puffin Produce, pleser o’r mwyaf yw bod yn gadeirydd ar Grŵp Cynghori’r Clwstwr, a ffurfiwyd er mwyn darparu goruchwyliaeth ar gyfer y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy a bod yn “ffrind beirniadol” iddo. Fel busnes sy’n tyfu ac yn datblygu ein hunain, rydym yn sylweddoli pa mor hanfodol yw cefnogi busnesau bwyd a diod Cymru sy’n awyddus i dyfu, a darparu llawer o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth ledled Cymru.

Mae’r heriau a’r themâu y mae’r clwstwr yn canolbwyntio arnynt – sy’n cael sylw yn yr adroddiad hwn – yn sicr yn taro tant gyda ni. Yn ein busnes ni, mae ein systemau gwybodaeth reoli yn hanfodol ar gyfer ein penderfyniadau bob dydd a’n cynlluniau strategol hirdymor. Ar ôl sawl blwyddyn o ansicrwydd yn y farchnad, mae’r clwstwr yn rhoi cyfle i aelodau ddysgu oddi wrth ei gilydd, cryfhau eu dealltwriaeth a’u gwybodaeth ariannol ac ehangu eu rhwydweithiau er mwyn dod o hyd i’r cyllid iawn ar y cam iawn yn eu twf.

Lansiwyd y weledigaeth newydd ar gyfer sector bwyd a diod Cymru gan Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, yn Ffair Aeaf 2021. Mae’n cyfleu’r genhadaeth a’r weledigaeth ar gyfer diwydiant bwyd a diod sy’n ffynnu, ac sydd ag enw da am ragoriaeth ar hyd a lled y byd. Mae’n amlwg mai’r nod yw cynyddu maint, gwerth a chynhyrchiant busnesau, ac mae’r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yn cyd-fynd yn glir â’r weledigaeth newydd. Edrychaf ymlaen at y flwyddyn nesaf ac at gefnogi gweithgareddau’r clwstwr.



JON LANGMEAD

*Cadeirydd Grŵp Cynghori’r
Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy;
Prif Swyddog Cyllid, Puffin Produce*

CYDNABYDDIAETH

Mae'n bleser gennym rannu adroddiad blynyddol cyntaf y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy, sy'n nodi prif weithgareddau a themâu'r flwyddyn gyntaf yn natblygiad y clwstwr. Rydym hefyd wedi cynnig rhai ystyriaethau polisi. Mae'r rhain yn seiliedig ar yr heriau penodol y mae aelodau'r clwstwr yn mynd i'r afael â nhw wrth geisio tyfu, ar ôl ychydig flynyddoedd cythryblus iawn.

Rydym yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am y cymorth i ddatblygu'r clwstwr hwn, sy'n cael ei ariannu drwy gynllun Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014–2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

Rydym hefyd yn ddiolchgar am y gefnogaeth y mae aelodau Grŵp Cynghori'r Clwstwr (gweler Atodiad

1) yn ei gynnig i'r clwstwr, ac yn ei gwerthfawrogi'n fawr. Mae'r aelodau wedi bod yn hael gyda'u hamser a'u syniadau, ac maent yn helpu i sicrhau bod y clwstwr yn cadw ffocws ar heriau uwchraddio sector bwyd a diod Cymru.

Er mwyn cyflawni nodau ac amcanion y clwstwr, rydym yn gweithio gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid fel sefydliadau ariannol, y byd academiaidd, a rhaglenni cymorth a chlystyrau bwyd a diod eraill yng Nghymru. Mae cydweithio â'r rhanddeiliaid hyn yn hanfodol i sicrhau llwyddiant y clwstwr, ac mae'n dwyn llawer o fudd i aelodau'r clwstwr.

Yn olaf, ac yn bwysicach na dim, hoffem ddiolch i aelodau'r clwstwr am eu gwaith gyda'r clwstwr ac am rannu eu heriau a'u gwybodaeth, yn ogystal â'r hyn y maent wedi'i ddysgu wrth uwchraddio.



LINDA GRANT

Cyfarwyddwr Rhaglen
Y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy

SAMOSACO



Pam oeddech chi eisiau ymuno â'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy?

Er mwyn cael mwy o wybodaeth am gymorth ac arweiniad tuag at dyfu'n gynaliadwy ac ehangu'r busnes, a beth i'w roi ar waith i gyflawni hyn.

Beth ydych chi wedi'i gael gan y clwstwr hyd yma?

Rydw i wedi cael cefnogaeth a chynghor i symud tuag at fy nodau a'm hamcanion. Rydw i hefyd wedi cael cymorth myfyriwr marchnata ar leoliad, sydd wedi bod yn gweithio gyda ni, ac wedi bod yn ymwneud â rhaglen SMART hefyd.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i fusnesau bach a chanolig eraill yn y sector bwyd a diod yng Nghymru sy'n awyddus i uwchraddio a thyfu?

Byddwn yn dweud bod y cymorth a'r arbenigedd yno i chi wneud cais amdanynt. Dim ond gofyn sydd raid.



SOKHY SANDHU

Rheolwr Gyfarwyddwr,
Samosaco





CYFLWYNO'R CLWSTWR UWCHRADDIO CYNALIADWY

Dros y blynnyddoedd diwethaf, un thema sydd wedi codi dro ar ôl tro yn sector bwyd a diod Cymru yw'r angen i fusnesau allu tyfu'n gynaliadwy mewn ffordd hylaw a fforddiadwy. Mae hyn yn golygu bod angen i fusnesau bwyd a diod allu rheoli a chael gafael ar gyfalaf er mwyn gallu cynyddu trosiant, ariannu'r gwaith i ehangu capasiti, neu arloesi.

Mae pandemig Covid-19 wedi tynnu sylw at broblemau sylfaenol yn ymwneud â chyllid yn y sector. Er bod gan rai busnesau arbenigedd a phrosesau rheoli ariannol cadarn yn eu lle, mae eraill wedi gweld, drwy'r argyfwng, nad oedd eu systemau rheoli'n rhoi'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau cyflym ynghylch ble i ganolbwyntio eu hymdrechion er mwyn goroesi. Roedd y diffyg systemau cadarn hyn hefyd yn amlwg gan fod y gallu i gael gafael ar gyllid yn cael ei gyfaddawdu. Nod y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yw mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn rhag tyfu.

Mae'r clwstwr yn elwa o gefnogaeth Grŵp Cyngori'r Clwstwr, sy'n cynnwys rhanddeiliaid fel busnesau bwyd a diod, yr Is-adran Fwyd, Banc Datblygu Cymru a Sgiliau Bwyd Cymru (gweler Atodiad 1). Bydd tîm rheoli'r clwstwr yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Cyngori ar y gweithgareddau a'r cyfleoedd i gydweithio sy'n cael eu datblygu drwy'r clwstwr.

Mae'r clwstwr wedi datblygu gweledigaeth a datganiad cenhadaeth i'w helpu i ddatblygu ac i wneud yn siŵr bod cadernid, adfer a rheoli risg wrth galon ei weithgareddau. Mae ein gweledigaeth a'n datganiad cenhadaeth yn cyd-fynd â strategaeth y sector, "Gweledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod o 2021 – Adeiladu ar ein llwyddiant", a lansiwyd gan Lesley Griffiths AS, y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, yn Ffair Aeaf 2021.

GWELEDIGAETH

Creu cymuned o fusnesau bwyd a diod Cymreig uchelgeisiol sy'n tyfu, gan sbarduno twf economaidd yn y sector a'r cymunedau y mae'r busnesau hyn yn gweithio ynddynt.

CENHADAETH

Drwy weithio gyda diwydiant, y byd academiaidd, y llywodraeth a rhanddeiliaid, bydd y clwstwr yn helpu busnesau i wreiddio sgiliau gwydnwch, adfer ac uwchraddio drwy gydweithio, gan alluogi arweinwyr busnes i asesu risgiau a chyfleoedd yn fedrus, gwneud penderfyniadau gwell a sicrhau cyfalaf, capasiti ac felly'r hyder i uwchraddio.



Pam oeddech chi eisiau ymuno â'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy?

Mae Cradoc's yn tyfu, ac mae angen dod o hyd i gymorth i wneud hyn gam wrth gam – rydyn ni'n clywed am bobl yn tyfu'n rhy gyflym, ac am y problemau maen nhw'n eu cael yn sgil hynny. Mae'r clwstwr yn rhoi gwybodaeth a hyder i chi wneud y penderfyniadau iawn.

Beth ydych chi wedi'i gael gan y clwstwr hyd yma?

Rydyn ni wedi dysgu bod angen i ni gymryd amser i dyfu. Mae hynny'n golygu cael popeth mewn trefn, deall bod cyllid ac adnoddau'n hanfodol ar gyfer twf llwyddiannus, ystyried amrywiol opsiynau a derbyn cyngor pan fyddwn yn ansicr.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i fusnesau bach a chanolig eraill yn y sector bwyd a diod yng Nghymru sy'n awyddus i uwchraddio a thyfu?

Rydw i'n brysur iawn yn gwneud yr hyn rwy'n arfer ei wneud, sef pobi i'n capasiti presennol, a gwneud y gorau allwn ni o'r hyn sydd gennym. Dydw i ddim yn gorfod gwneud hyn ar fy mhen fy hun. Mae 'na bobl gyda phrofiadau gwych yn barod i roi cefnogaeth a chynghor i mi – fyddwn i ddim yn gall petawn i'n meddwl y gallwn i ehangu'n gyflym heb ymgynghori ag unigolyn neu sefydliad sy'n barod i fy arwain i, a phersonél sy'n barod i'm llywio'n llwyddiannus drwy'r broses. Mae arbenigedd ym maes cyllid, gweithgynhyrchu, uwchraddio a rheoli pobl ar gael. Dim ond gofyn sydd raid.



ALLIE THOMAS

*Sylfaenydd,
Cradoc's Savoury Biscuits*

“

Rydyn ni wedi dysgu bod angen i ni gymryd amser i dyfu. Mae hynny'n golygu cael popeth mewn trefn.





FFOCWS Y CLWSTWR

Yn y bôn, pedwar peth mae'r clwstwr yn canolbwyntio arnynt er mwyn uwchraddio busnesau bwyd a diod:


Mynediad at gymwyseddau – helpu busnesau i ddatblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau sydd eu hangen arnynt i uwchraddio, fel galluogi arweinwyr busnes i ddeall data a gwybodaeth a gwneud penderfyniadau gwell am eu busnesau, gan nodi bylchau mewn gwybodaeth/cymhwysedd a helpu'r busnesau i gynllunio i fynd i'r afael â'r bylchau hynny.

Mynediad at gapasiti – helpu busnesau i

adnabod a deall cyfyngiadau i'w capasiti ar draws y busnes cyfan a datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â hyn.

Mynediad at gyfalaf – helpu arweinwyr busnes i ddeall y gwahanol fathau o gyfalaf a buddsoddiadau, a'u helpu i fynd ati'n briodol i asesu beth sydd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion busnes a beth sy'n dderbyniol i ddarparu fuddsoddwyr.

Bydd rhoi sylw i'r elfennau hyn yn arwain at fwy o hyder i uwchraddio.



CAPASITI



CYFALAF



CYMWYSEDDAU




HYDER

GYDA PHWY RYDYM YN GWEITHIO

Mae'r clwstwr yn cynnwys busnesau bwyd a diod bach a chanolig yng Nghymru sydd â chynlluniau twf uchelgeisiol a naill ai yn y broses o uwchraddio eu busnesau neu angen cymorth i wneud hynny. Ar ôl dwy flynedd heriol y pandemig, a'r DU yn ymadael â'r UE, mae yna hefyd aelodau o'r clwstwr sy'n teimlo mai "goroesi" maen nhw, ond maen nhw'n llawn uchelgais ar gyfer twf yn y dyfodol. Er enghraifft, mae aelodau o'r clwstwr sydd yn y gorffennol wedi dibynnu ar sianeli gwasanaethau bwyd fel eu llwybr i'r farchnad, wedi cael cymorth i asesu a datblygu strategaethau ar gyfer gwahanol lwybrau i'r farchnad a lledaenu eu risg.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, mae'r clwstwr wedi ymgysylltu â dros 50 o fusnesau mewn ystod eang o sectorau, gan gynnwys nwyddau wedi'u pobi, diodydd, cig, cynnyrch llaeth, sawsiau ac ati a bwyd moethus, gan adlewyrchu amrywiaeth y sectorau sydd yng Nghymru. Mae aelodau'r clwstwr yn edrych ar ffyrdd newydd o wasanaethu eu marchnad darged, boed hynny drwy gynhyrchion mwy cynaliadwy, amrywiadau iachach ar gynnwyrch traddodiadol, neu gynhyrchion sy'n ceisio cyflwyno'r defnyddwyr i ddiwylliannau newydd, gan wella amrywiaeth yn y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru.

FFIGUR 1: DADANSODDIAD Y CLWSTWR O'R SECTOR



DOSBARTHIAID YR AELODAU

Mae'r Clwstwr yn cefnogi busnesau o wahanol feintiau. Mae rhai ohonynt yn gwneud colled, ond yn ceisio troi at elw fel rhan o'u cynlluniau twf. Mae hyn yn cyfleu uchelgais y clwstwr i uwchraddio nid yn unig busnesau sydd wedi hen ennill eu plwyf, ond busnesau ifanc hefyd, gan ddeall nad yw'n rhy hwyr i unrhyw fusnes dyfu os yw'r uchelgais ganddo. Mae gwahanol heriau'n berthnasol i'r busnesau hyn hefyd. Efallai fod mantolen ambell un yn iachach na'r llall, ond mae eu problemau yr un mor bwysig, a nod y clwstwr yw eu harwain a'u cefnogi i ddechrau ar eu cam nesaf o dwf.

Mae'n bleser gennym ddweud bod gennym aelodau ym mhob cwr o Gymru.



GOGLEDD CYMRU



CANOLBARTH CYMRU



GORLLEWIN CYMRU



DE CYMRU

RHANDDEILIAID

fel rhanddeiliad allweddol sy'n gallu helpu cynhyrchwyr bwyd a diod i fynd i'r afael â chyfyngiadau o ran capasiti. Mae ysgolion busnes, prosiectau eraill sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, a rhaglenni fel Sgiliau Bwyd Cymru, rhaglenni ymgysylltu â masnach a Phrosiect Helix yn rhanddeiliaid sy'n helpu i wella sgiliau a chymwyseddau busnesau bwyd a diod. Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yn gweithredu o fewn ecosystem gydweithio ehangach sy'n cynnwys rhanddeiliaid ar draws y sbectrwm er mwyn i'n haelodau allu uwchraddio'n llwyddiannus gyda thwf cynaliadwy. Mae Ffigur 2 isod yn dangos y cysylltiad rhwng y rhanddeiliaid y mae'r clwstwr yn ymgysylltu â nhw.

FFIGUR 2

BLWYDDYN 1 – CANFYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU'R CLWSTWR

Yn ystod blwyddyn gyntaf y clwstwr, rydym wedi nodi rhai o'r prif rwystrau y mae'r aelodau'n eu hwynebu, ynghyd â rhai themâu sylfaenol:




THEMÂU SYLFAENOL CYFFREDIN:

SUT MAE CYFALAF YN CYFYNGU AR DWF

Roedd dau o'r rhwystrau cyffredin i uwchraddio'n ymwneud â mynediad at gyllid a chyfalaf. Mae hyn wedi bod yn broblem i lawer o fusnesau, yn enwedig oherwydd cyfyngiadau llif arian o ganlyniad i'r pandemig. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae busnesau wedi gorfod ymdopi â chyfalaf gweithio cyfyngedig, gwasgfa o ran credyd masnach a marchnad anwadal. Mae'r

anwadalrwydd hwn wedi dod o'r ochr gyflenwi, gyda lefelau chwyddiant na welwyd mewn degawdau'n berthnasol i nwyddau, amhariadau sylweddol yn y gadwyngyflenwiarhwysraurheoleiddiol; ac o ochr y galw, gyda phrynu mewn panig yn y sector manwerthu, yn enwedig yn nyddiau cynnar y pandemig, ynghyd â llai o alw o'r sector lletygarwch.

FFIGUR 3: CYFRAN Y CWMNIAU GYDAG ASED AU CYFREDOL NEGYDDOL



Mae asedau cyfredol bron i 40% o aelodau'r clwstwr yn negyddol. Mae hyn yn golygu bod eu gallu i gael gafael ar arian tymor byr yn gyfyngedig iawn, gan na fyddent yn debygol o allu delio â hyd yn oed y pethau bach sy'n dwyn arian yn annisgwyl. Fodd bynnag, mae'n bwysig sylweddoli nad yw'r sefyllfa negyddol hon yn golygu nad yw'r busnesau'n llwyddiannus. Mae ein haelodau'n cynnwys amrywiaeth eang o fusnesau llwyddiannus ac uchelgeisiol sydd â chynnyrch wedi'i restru mewn llawer o siopau mawr, a chynigion e-fasnach datblygedig iawn. Yn wir, mae'r busnesau'n wynebu'r problemau hyn am eu bod nhw mor llwyddiannus. Mewn rhai achosion, mae'r busnesau wedi tyfu'n gynt nag y mae'r "cymwyseddau" wedi datblygu. Er enghraifft, efallai fod y busnes bron â chyrraedd maint lle mae angen iddo gael Cyfrifydd Rheoli neu Gyfarwyddwr Cyllid mewnol.


Senario arall a allai achosi asedau cyfredol negyddol yw archebion sydd wedi cynyddu cymaint nes cael effaith negyddol ar lif arian.

Beth bynnag, oherwydd natur sector bwyd a diod Cymru, mae'n amlwg bod aelodau'r clwstwr yn wynebu anfantais o ran argaeledd arian yn y tymor byr, yn enwedig yn wyneb y pandemig ac ymadael â'r UE.

Ar ben hyn, mae'n ymddangos bod problem systemig yn eco-system fusnes Cymru, lle nad yw busnesau bwyd a diod yn cael eu hystyried mor ddeniadol i fuddsoddi ynddynt o'u cymharu â sectorau eraill.

Mae'n galonogol gweld adroddiad Banc Datblygu Cymru a Beauhurst yn 2021, sy'n dweud mai'r sector prosesu bwyd a diod yw'r trydydd sector mwyaf llwyddiannus o ran darparu cwmnïau twf uchel i Gymru. Fodd bynnag, yn ystod 2019 a 2020, mae'n disgyn i'r 8fed safle o ran deliau ecwiti a sicrhawyd, ac nid yw'n ymddangos yn yr 16 uchaf pan ystyrir gwerth y deliau hyn (Bauhurst 2021).

Mae'n amlwg bod y sector bwyd a diod yng Nghymru yn dwyn gwerth. Nid yn unig y mae ganddo gyfran fawr o gwmnïau twf uchel, ond mae'n cyfrif am £3.85bn o werth ychwanegol gros (GVA) yn economi Cymru. Gallai'r diffyg cyswllt rhwng nifer y busnesau bwyd a diod twf uchel yng Nghymru a nifer a gwerth y deliau ecwiti fod yn arwydd o fethiant y farchnad; nid yw'r farchnad cyfalaf ecwiti yn buddsoddi mewn busnesau bwyd a diod yng Nghymru mewn ffordd sy'n gymesur â'u llwyddiannau. Mae gwaith y clwstwr i ymgysylltu â sefydliadau ariannol a phob math o ddarparwyr cyllid yn ceisio mynd i'r afael â hyn, ynghyd â'r ffocws ar wella dealltwriaeth y sector o gyllid.



GWEITHGAREDDAU'R CLWSTWR I ROI SYLW I DDIFFYG CYSWLLT



Gwella
Gwybodaeth



Gwella
Rhwydweithiau



Cysondeb â'r Rhaglen
Parod am Fuddsoddiad



Buddsoddiad Amgylcheddol,
Cymdeithasol a Llywodraethol



1. Gwella Gwybodaeth

Nid yw llawer o aelodau'r clwstwr yn gwbl ymwybodol o'r gwahanol fathau o gyfalaf sydd ar gael iddynt, boed hynny'n ffynonellau ecwiti fel cyllido torfol, angylion buddsoddi, neu gronfeydd cyfalaf menter; nac o'r gwahanol fathau o ddyledion, fel cyllid asedau, ffactoreiddio anfonebau neu fenthyciadau banc traddodiadol. Un o'r meysydd allweddol sy'n rhan o waith y clwstwr yw ceisio taflu goleuni ar y mathau o gyfalaf sydd ar gael, a defnyddio ffeithluniau, coed penderfyniadau, gweithdai a chyfleoedd ymgysylltu â darparwyr cyllid i helpu aelodau'r clwstwr i gael gwell dealltwriaeth o wahanol fathau o gyfalaf.



2. Gwella Rhwydweithiau

Bydd ymestyn y rhwydwaith rhanddeiliaid yn rhoi gwell cyfleoedd i aelodau'r clwstwr gael gafael ar gyllid. Er enghraifft, yn aml iawn ni fydd aelodau'r clwstwr wedi edrych y tu hwnt i'w hadnoddau eu hunain, banciau, Banc Datblygu Cymru na ffynonellau'r llywodraeth ar gyfer eu hanghenion cyfalaf. Mae cyllid o bob ffynhonnell yn gynwysedig yn ein rhwydwaith rhanddeiliaid. Drwy ehangu'r rhwydwaith hwn, bydd aelodau'r clwstwr yn gallu gwella eu rhagolygon a'u hyder ariannol. Yn yr un modd, ac yr un mor bwysig, mae'r rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid yn galluogi'r clwstwr i roi cyfleoedd i ddarparwyr cyllid yn sector bwyd a diod Cymru, gan ddod â mwy o fuddsoddiad preifat i Gymru.



3. Cysondeb â Rhaglen Parod am Fuddsoddiad Bwyd a Diod Cymru

Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy yn cydweithio â rhaglenni a chlystyrau eraill er mwyn hwyluso gwell cyfleoedd cyfalaf ar draws ein carfan o aelodau. Mae'r clwstwr yn gweithio'n agos iawn gyda'r Rhaglen Parod am Fuddsoddiad, sy'n gweithio ar sail un-i-un gyda busnesau i'w helpu i godi arian, creu modelau ariannol, llunio cynlluniau busnes ac ati. Bydd fîm y Cynllun Parod am Fuddsoddi a rheolwyr y clwstwr yn cydweithio'n agos i sicrhau cysondeb a chefnogaeth i'r aelod o'r clwstwr.



4. Buddsoddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol

Fel y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy, mae gennym ddiddordeb mewn cynaliadwyedd o safbwynt twf a gwytnwch busnes ac ariannol, ac o safbwynt "cyfrifoldeb cymdeithasol". Mae cynaliadwyedd ariannol wrth galon y clwstwr: cynaliadwyedd busnes hirdymor mewn ystyr ariannol a gweithredol. Rydym yn deall bod cysylltiad annatod rhwng cynaliadwyedd ariannol a chynaliadwyedd cymdeithasol gyfrifol, ac felly mae materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol ar ein hagenda. Mae ein syniadau ynghylch "buddsoddiad effaith" yn enghraifft o hyn, sef y buddsoddiad mewn busnesau cymdeithasol gyfrifol er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethol.



**“YMUNWCH Â’R CLWSTWR
AC EWCH AMDANI –
DOES DIM BYD GWELL NA
GWEITHIO GYDA PHOBL
O’R UN ANIAN Â CHI!”**

*Pam oeddech chi eisiau ymuno â’r Clwstwr Uwchraddio
Cynaliadwy?*

Rydym yn awyddus i dyfu ein cwmni ac angen help.

Beth ydych chi wedi’i gael gan y clwstwr hyd yma?

Llawer o wybodaeth, cysylltiadau a help go iawn gyda
chynllunio ar gyfer twf a chodi arian.

*Pa gyngor fydddech chi’n ei roi i fusnesau bach a
chanolig eraill yn y sector bwyd a diod yng Nghymru
sy’n awyddus i uwchraddio a thyfu?*

Ymunwch â’r clwstwr a mynd amdani – does dim byd
gwell na gweithio gyda phobl o’r un anian â chi!



ERYL VAUGHAN

*Prif Weithredwr,
The Low Carb Food Company*

CYFYNGIADAU AR DWF – CAPASITI

Cynhyrchu bwyd a diod yw un o’r sectorau mwyaf yn economi Cymru. Fodd bynnag, mae rhannau o’r sector lle mae rhywfaint o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) yn cael ei golli o Gymru o ganlyniad i ddiffyg capasiti ar gyfer Cymru gyfan. Mae cael y capasiti cywir yn y lle iawn yn allweddol i fanteisio’n llawn ar y deunyddiau crai sy’n dod o Gymru. Lle mae prosesu’n cael ei wneud dros y ffin, mewn sectorau fel llaeth a diodydd, mae’n bosibl y bydd gwelliannau yng nghapasiti Cymru gyfan, drwy gydweithredu ar draws rhanddeiliaid y diwydiant, yn arwain at gynhyrchiant uwch a GYC ledled Cymru.

Mae llawer o aelodau’r clwstwr ar gam hollbwysig yng nghylch bywyd eu busnes, lle mae angen iddynt fuddsoddi mewn mwy o gapasiti. Fodd bynnag, gwelwn yn aml nad yw busnesau’n gallu ystyried pa

mor briodol yw’r capasiti sydd ei angen arnynt, a’u bod yn tybio bod angen iddynt fuddsoddi mewn offer newydd. Mae llawer o gwmnïau bwyd a diod Cymru yn cynnig cynnyrch gwahanol iawn o Gymru, gan ddibynnu ar y pwyntiau unigryw a allai helpu i sicrhau mwy o elw. Efallai y bydd y busnesau hyn yn gweld bod gweithio gyda gweithgynhyrchwyr neu bacwyr dan gontract yn helpu i ddatrys problemau capasiti/cyfyngiadau. Bydd cynhyrchwyr eraill yn gweld bod angen iddynt ddilyn strategaeth “costau isaf”, lle mae angen cyfalaf i fuddsoddi mewn awtomeiddio efallai er mwyn sicrhau maint, lleihau costau a pharhau’n gystadleuol.

GWEITHGAREDDAU'R CLWSTWR I FYND I'R AFAEL Â

CHYFNYNGIADAU O RAN CAPASITI



Deall Sylfaen
Costau Busnes



Gwella'r Wybodaeth
sy'n ymwneud â
Chapasiti Cymru



Cyfeirio at
Raglenni/Rhanddeiliaid




1. Deall Sylfaen Gostau Busnesau

Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wedi datblygu model costau sy'n caniatáu i gwmnïau unigol fesur eu sylfaen gostau, gan gynnwys nid yn unig costau uniongyrchol, ond amsugno gorbenion hefyd. Ar ben hynny, mae'r model costau'n eu galluogi i gynllunio ar gyfer senarios, gan helpu aelodau i fodelu a chynllunio ar gyfer natur anwadal cyflenwadau. Mae gweithredu model o'r fath fel rhan o'u gwybodaeth reoli yn galluogi aelodau'r clwstwr i edrych ar eu costau cynhyrchu mewn ffordd wrthrychol, gan eu helpu i ddeall a ddylent barhau i gynhyrchu'n fewnol (a gwneud arbedion effeithlonrwydd os oes angen, neu os gallant wneud hynny), ehangu drwy fuddsoddiad cyfalaf er mwyn cynyddu eu capasiti, neu fel arall ddefnyddio trydydd parti i gynhyrchu dan gcontract.



2. Gwella'r Wybodaeth sy'n ymwneud â Chapasiti Cymru Gyfan

Mae'r Clwstwr wedi dechrau ymchwilio i gapasiti prosesau gweithgynhyrchu yng Nghymru. Y gobaith yw y bydd hyn yn arwain at ddau ganlyniad: yn gyntaf, gallai gwella'r capasiti prosesu yng Nghymru wella GVA ein cynnyrch drwy ddileu'r angen i rai o'r cynhyrchion hyn gael eu gwneud y tu allan i Gymru. Yn ail, gallai'r ymarfer mapio hwn dynnu sylw at gyfleoedd i fusnesau gydweithio'n well, yn enwedig o ran trefniadau pecynnu dan gcontract, ond hefyd o ran meincnodi mewnbynnau costau



cyffredin neu gyfuno neu gyfnerthu prosesau dosbarthu. Er bod mwy o gapasiti'n cael ei gysylltu'n aml ag argaeledd cyfalaf (boed yn gyfalaf tymor byr neu dymor hir), mae gan gydweithio hefyd rôl i'w chwarae yng ngallu cwmnïau i gynyddu eu capasiti cynhyrchu.

3. Cyfeirio at Raglenni/Rhanddeiliaid Eraill

Mae gan Lywodraeth Cymru raglen o'r enw SMART Cymru, sy'n cynnig diagnosteg am gynhyrchiant. Byddwn yn cyfeirio aelodau'r clwstwr at y rhaglen hon fel man cychwyn ar gyfer deall eu capasiti presennol, cyn cymryd bod angen iddynt fuddsoddi i gynyddu capasiti. Mae rhaglen Sgiliau Bwyd Cymru hefyd yn cynnig cyfle i fusnesau bwyd a diod wella sgiliau mewn meysydd fel gweithgynhyrchu darbodus, a all hefyd helpu busnesau i wella eu cynhyrchiant a chael mwy allan o'u capasiti presennol. Wrth gwrs, mae AMRC Cymru yn rhanddeiliad arall yn y maes "capasiti", sy'n canolbwyntio ar feysydd fel roboteg, deallusrwydd artifffisial a digido.



CYFYNGIADAU AR DWF – CYMWYSEDDAU



Un o'r prif broblemau i fusnesau bwyd a diod, yn enwedig ar ôl y pandemig ac ymadael â'r UE, yw prinder gweithwyr sy'n meddu ar y sgiliau priodol. Er bod llawer o dystiolaeth o brinder sgiliau technegol yn y sector bwyd, mae prinder sgiliau rheoli hefyd – er enghraifft sgiliau'n ymwneud â chyllid, marchnata a'r gadwyn gyflenwi – yn dod i mewn i'r sector bwyd a diod

yng Nghymru o brifysgolion ac ysgolion busnes. Mae set sgiliau estynedig a mynediad at dalent yn allweddol i lwyddiant y sector yn y dyfodol, ac mae denu talentau ifanc newydd, yn ogystal â gwella'r talentau sydd yn y diwydiant yn barod, yn un o amcanion y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy.



GWEITHGAREDDAU'R CLWSTWR I WELLA CYMWYSEDDAU



Cyfarwyddwyr
Anweithredol



Rhannu Gwybodaeth
Rhwyng Cymheiriaid



Rhaglen Lleoli
Myfyrwyr



Amrywiaeth a
Buddsoddi

1. Cyfarwyddwyr Anweithredol

Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wrthi'n datblygu rhaglen beilot sy'n cyfleu'r manteision y gall cyfarwyddwyr anweithredol eu cynnig i fusnesau, fel sgiliau allweddol a allai fod ar goll o'r busnes, gwneud penderfyniadau gwell a mwy gwybodus, a chyfuno'r cymorth allanol hwn â'r potensial ar gyfer buddsoddiad gweithredol mewn bwyd a diod o Gymru. Mae'r model hwn yn dechrau dangos y "cylch rhinweddol" o wella cymhwysedd neu sylfaen sgiliau'r busnes, gan wella apêl y busnes ar gyfer buddsoddi. Mae gan y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy enghreifftiau gwych o sefyllfaoedd lle mae hyn wedi galluogi buddsoddiad o ran dyled ac ecwiti, sydd wedi bod yn ddibynnol ar gyfraniad Cyfarwyddwyr Anweithredol.

2. Rhannu Gwybodaeth Rhwyng Cymheiriaid

Mae'r Clwstwr wedi trefnu nifer o 'Grwpiau Diddordeb Arbennig' er mwyn dod â busnesau sy'n wynebu problemau cyffredin at ei gilydd. Mae'r grwpiau hyn, sy'n cael eu harwain gan fusnesau, yn sail i gydweithredu a chydweithio, gan gynnwys rhannu gwybodaeth rhwyng cymheiriaid. Mae gennym dri grŵp ar hyn o bryd, a'r bwriad yw dyblu'r nifer hwnnw o leiaf yn ystod y flwyddyn nesaf.

3. Rhaglen Lleoli Myfyrwyr Busnes

Mae'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy wedi bod yn allweddol yn y gwaith o ddenu talent ifanc newydd drwy raglen beilot lleoli myfyrwyr sy'n archwilio'r potensial i israddedigion ym maes rheolaeth fusnes gael blas ar gyfleoedd gyrfa mewn busnesau bwyd a diod. Gwnaed hyn drwy gydweithio ag Ysgol Fusnes Caerdydd ac aelodau'r clwstwr, a gafodd eu gwahodd i wneud cais am brosiect roedden nhw'n teimlo fyddai'n eu helpu i dyfu ac uwchraddio'n gynaliadwy. Yn dilyn hynny, cyfwelwyd 25 o fyfyrwyr ar gyfer y 6 rôl, a oedd yn amrywio o

rôl manwerthu gyda gweithgynhyrchwr gwasanaeth bwyd, i gyflwyno systemau gwybodaeth reoli. Yn y pen draw, nod y rhaglen hon yw helpu'r busnesau i uwchraddio, ond hefyd i ehangu a gwella galluoedd rheoli israddedigion busnes yn eu hail flwyddyn, a'u cyflwyno i'r ystod eang o gyfleoedd gyrfa yn y sector bwyd a diod.

4. Amrywiaeth a Buddsoddi

Mae ymchwil yn dangos bod timau amrywiol yn perfformio hyd at 36% yn well na thimau eraill, gyda refeniw 19% yn uwch ar gyfartaledd (McKinsey, 2020). Mae timau amrywiol yn cynnig gwahanol brofiadau a sgiliau, gan helpu busnesau i ddatblygu dull mwy cytbwys o weithio. Mae hyn oll yn braenaru'r tir ar gyfer sector bwyd a diod mwy amrywiol a chadarn yng Nghymru. Ar ben hynny, mae buddsoddwyr sefydliadol hefyd yn fwyfwy ymwybodol o ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol (ESG), pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau buddsoddi.

Gan weithio gydag entrepreneur bwyd ac aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, Maggie Ogunbanwo, mae'r clwstwr wedi datblygu Grŵp Diddordeb Arbennig 'Pontio'r Bwlch'. Mae'r grŵp hwn yn ceisio deall a goresgyn y rhwystrau y mae llawer o entrepreneuriaid o gefndiroedd lleiafrifol yn eu hwynebu pan fyddant yn dechrau busnes ac yn ceisio cael eu busnes i dyfu. Un rhwystr sy'n cael ei nodi'n aml yw nad oes gan yr entrepreneuriaid hyn y rhwydweithiau cymorth i sefydlu a thyfu busnes. Wrth ystyried, er enghraifft, entrepreneuriaid nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf, gall fod yn anoddach o lawer ennill eich plwyf yn y gymuned fusnes a chael cefnogaeth gan rwydweithiau sefydledig. Drwy Grŵp Diddordeb Arbennig Pontio'r Bwlch, ein gobaith yw rhoi'r grym yn nwylo'r perchnogion busnes hyn er mwyn iddynt allu ffynnu, gan eu cysylltu â'r ecosystem ehangach i roi mynediad at y cyfleoedd sydd eu hangen i dyfu ac uwchraddio. Bydd hyn yn ei dro yn helpu i gynyddu amrywiaeth ac arloesedd yn sector bwyd a diod Cymru ac yn helpu i ddenu rhagor o fuddsoddiad.

CYFYNGIADAU AR DWF – HYDER


Mae yna ffactor arall sydd, yn ein barn ni, yn hanfodol er mwyn llwyddo yn y daith, a hyder yw hwnnw. Mae'r sector bwyd a diod wedi wynebu llawer iawn o ansicrwydd dros y blynyddoedd diwethaf, hyd yn oed cyn y pandemig. Ac mae ansicrwydd yn niweidio hyder busnesau, pan fydd entrepreneuriaid a thimau arwain yn methu rhagweld neu fodelu rhagolygon ar gyfer gwerthiannau, costau ac elw, gan ei gwneud yn anodd sicrhau cyllid – boed yn gyfalaf gweithio tymor byr neu'n gyllid twf tymor hwy.

Mae arolwg Hyder Busnesau 2021 a gyhoeddwyd gan Lloyds Bank yn dangos, er bod hyder busnesau yng Nghymru wedi gwella dros y flwyddyn, ei fod ar ei hôl hi o'i gymharu â'r mynegai ar gyfer y DU gyfan.

Gellir priodoli hyder – neu ddiffyg hyder – i'r materion sy'n berthnasol i fusnes ar y pryd. Mae'n hawdd dweud mai'r Coronafeirws yw'r prif reswm dros y diffyg hyder hwn. Ond mae angen i ni edrych yn ddyfnach na'r Coronafeirws ac ymadael â'r UE i ddeall yn llawn beth sy'n gwneud i lefelau hyder fynd yn is. Mae busnesau bach a chanolig a busnesau sy'n uwchraddio yn fwy na neb wedi wynebu effaith pethau fel prinder gweithwyr medrus ac fel arall, y diffyg cyllid sydd ar gael, ac yn hollbwysig, y methiant i ddeall sut i ddatrys y problemau hyn. Mae'r cynnydd

diweddar mewn costau mewnbynnau yn ychwanegu at y cymhlethdod a'r risg sy'n wynebu cynhyrchwyr bwyd a diod. Dydy hi ddim mor syml â chyflogi arbenigwr yn y meysydd hyn er mwyn dod o hyd i ateb, ac ni all y rheolwyr sy'n berchen ar eu cwmni daflu arian at y broblem chwaith; yn aml iawn, maent yn ymladd y fflamau ar eu pen eu hunain. Drwy eu helpu – drwy ddarparu gweithgareddau a chymorth o safbwynt Cyfalaf, Capasiti a Chymwyseddau – i ddeall a rheoli eu risgiau busnes yn well, mae'r clwstwr yn mynd i'r afael â lefelau hyder perchnogion busnes.

HYDER BUSNES 2021 - FFYNHONELL LLOYDS BANK





YSTYRIAETHAU POLISI

Ar ôl blwyddyn gyntaf y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy, ac ystyried profiadau aelodau'r clwstwr, rydym wedi ystyried rhai goblygiadau polisi. Er bod cynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru wedi dangos gwytnwch mawr yn wyneb amodau masnachu heriol y blynyddoedd diwethaf, maent yn wynebu anfanteision cynhenid oherwydd pethau fel agosrwydd at y farchnad a maint a strwythur llawer o fusnesau bwyd a diod sy'n fusnesau bach a chanolig. Er enghraifft, yn aml iawn nid yw mantolenni busnesau bach a chanolig mor gryf, felly mae'r cyfalaf sydd ar gael iddynt yn llai cystadleuol. O ran mewnbwn, mae'n rhaid iddynt brynu llai i mewn, ac mae'n fwy anodd iddynt ddenu'r sgiliau a'r doniau sydd eu hangen i helpu eu cynlluniau twf. Gall hyd yn oed daearyddiaeth Cymru fod yn anfanteisiol weithiau o safbwynt dod o hyd i gynhwysion a chael cymorth technegol ar gyfer offer. Dyma rai meysydd i'w hystyried a allai helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn:

1. Offerynnau cyllido i hybu prosiectau cydweithredol mwy. Gall offerynnau o'r fath sbarduno arbedion maint, a hynny drwy gyfuno galw, fel ynni, neu fewnbynnau allweddol arall. Yn yr un modd ag y penderfynodd grwpiau bwyd rhanbarthol y DU yn y 1990au eu bod am gyfuno marchnata a dosbarthu i gael mynediad at farchnadoedd, efallai fod cyfle i wneud yr un peth gyda mewnbynnau allweddol yn sector bwyd a diod Cymru. Efallai y bydd angen arian sefydlu ar grwpiau prynu o'r fath i ddatblygu model economaidd sy'n cynnig mantais wirioneddol.

2. Mae mynediad at gyfalaf gweithio a chyfalaf tymor hir wedi bod yn broblem gyffredin i lawer o fusnesau bwyd a diod o bob maint yng Nghymru. Gellir priodoli methiant i ddenu cyllid yn rhannol i ddiffyg hyder ariannol perchnogion busnes. Mae rhaglenni fel Sgiliau Bwyd Cymru wedi bod yn amhrisiadwy, yn rhoi i fusnesau bwyd a diod fynediad wedi'i ariannu'n rhannol at hyfforddiant ar gyfer ystod eang o sgiliau, gan gynnwys sgiliau ariannol a rheoli. Dylai hyn barhau er mwyn helpu i wella cymwyseddau yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, gall gymryd sawl blwyddyn i ennill cymwysterau cyfrifyddu a gall fod y tu allan i gylchoedd cyllido. Byddai dod

o hyd i ffordd o gefnogi busnesau i fuddsoddi mewn ennill cymwysterau ariannol yn rhywbeth cadarnhaol; gallai hyn gynnwys gweithio'n agosach gyda chyrff sy'n cynnig prentisiaethau cyfrifyddu a chysylltu'r cynlluniau hyn yn well â'r sector bwyd a diod.

3. Gallai deall y capasiti "coll" o'r cyflenwad bwyd a diod yng Nghymru, ac wedyn cynnal astudiaethau dichonoldeb er mwyn buddsoddi yn y capasiti coll hwnnw, arwain at gyfleoedd ar gyfer buddsoddi strategol mewn seilwaith. Gallai hyn gynnwys mewnfuddsoddi i ddatblygu capasiti mewn meysydd fel cynnyrch llaeth UHT, lladd-dai arbenigol sy'n gweithio ar raddfa fach, cyfleusterau pwrpasol ar gyfer cynnyrch planhigion, canio/potelu gwin ac alcohol, ymysg gofynion is-sector eraill. Unwaith eto, drwy gydweithio, lle mae grwpiau sydd â buddiant cyffredin (cynhyrchwyr, proseswyr, cyflenwyr, diwydiant ategol) yn ffurfio mentrau cydweithredol neu fentrau ar y cyd, gyda chymorth trefniadau cyllido hyblyg fel benthyciad trosiadwy ar gyfer offer cyfalaf. Byddai hyn yn rhoi rhywbeth yn ôl yn y tymor byr, drwy swyddi sy'n cael eu cadw, yn ogystal ag elw tymor hir drwy gynnydd mewn gwerth ychwanegol gros a chynhyrchiant, gyda'r gwaith cynhyrchu'n dod i Gymru. Mae edrych ar gyfleoedd a modelau fel y rhain yn un o amcanion y Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy ar gyfer y flwyddyn nesaf.

4. Rydym wedi nodi'r cysylltiad rhwng cymwyseddau, gwell hyder ariannol a mynediad at gyfalaf. Mae'r rhaglen Parod am Fuddsoddiad a'r clwstwr am helpu i fynd i'r afael â hyn, gan weithio ochr yn ochr â rhaglenni eraill fel Sgiliau Bwyd Cymru. Mae gwell hyder ariannol yn golygu gwell ymwybyddiaeth o reoli risg a rheoli cyfalaf gweithio. Mae prynu, gwerthu a gweithredu yn dod yn fwy soffistigedig o lawer wrth i gwmnïau bwyd a diod dyfu o ran maint. Mae gwell rheolaeth o gyfalaf gweithio a risg yn galluogi busnesau i brynu neu werthu ymlaen, rhannu a gwahaniaethu telerau contractau cyflenwi a dosbarthu a lliniaru'r effaith ar fewnbynnau a gwerthiant. Fodd bynnag, dim ond drwy raddfa a chwmpas wrth i fusnesau dyfu y daw'r opsiynau hyn i'r amlwg.

5. Gallai rhagor o gyllid ar gyfer rhaglenni lleoli myfyrwyr busnes yn y sector bwyd a diod yng Nghymru fod yn opsiwn amgen i'r rhaglenni lleoli graddedigion a gynigir gan gorfforaethau mawr. Un maes lle mae busnesau bach yn aml yn methu yw denu llafur ifanc, arloesol a medrus. Rhoddodd y diddordeb a gafwyd yn sgil ein rhaglen beilot ar gyfer lleoli myfyrwyr y gallu i'r Clwstwr gynyddu'r apêl i fyfyrwyr israddedig nid yn unig ddilyn gyrfa yn y byd bwyd a diod, ond o fewn busnesau bach hefyd. Byddai ymestyn y rhaglen i gynnwys holl brifysgolion Cymru sydd ag ysgol fusnes neu reoli yn denu sgiliau busnes a rheoli newydd i'r sector, ac yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau olyniaeth y mae'r sector yn eu hwynebu.

6. Yn yr un modd, mae'r rhaglen Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gynllun peilot sy'n ceisio cyflwyno busnesau bwyd a diod i'r manteision helaeth y gall Cyfarwyddwyr Anweithredol eu cynnig, gan gynnwys mynediad at sgiliau, cymwyseddau a gwell prosesau llywodraethu a rhwydweithiau. Gall y manteision hyn helpu busnesau i gael gafael ar gyfalaf a denu buddsoddiad ecwiti posib ar yr un pryd â lleihau'r risg ymddangosiadol sy'n gysylltiedig â rhoi benthyciadau i fusnesau llai neu iau. Bydd adborth o'r gynllun peilot hwn yn dangos a fydd rhagor o ymyriadau fel hyn yn helpu'r sector bwyd a diod i dyfu.



Pam oeddech chi eisiau ymuno â'r Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy?

Mae The Pudding Compartment Ltd wedi cael budd o'r clwstwr ers mis Mai 2021. Fel Rheolwr Gyfarwyddwr, bu'n fuddiol tu hwnt cael help a chyngor gan reolwyr y clwstwr mewn sawl maes gwahanol, yn enwedig o ran datblygu a gweithredu strategaethau.

Beth ydych chi wedi'i gael gan y clwstwr hyd yma?

Yn ogystal â'r cymorth o safbwynt cyfeiriad strategol, mae hyn hefyd wedi cynnwys amrywiaeth eang o bynciau penodol fel prosesau costio cynnyrch, cyfrifon rheoli, cyflwyno i gwsmeriaid newydd posib, a systemau ERP. Dwi'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'r clwstwr yn y dyfodol.

Pa gyngor fydddech chi'n ei roi i fusnesau bach a chanolig eraill yn y sector bwyd a diod yng Nghymru sy'n awyddus i uwchraddio a thyfu?

Mae cael mynediad at wybodaeth, profiad a rhwydwaith eang y fîm yn ased gwerthfawr iawn i allu manteisio arno.



STEVE WEST

*Rheolwr Gyfarwyddwr,
The Pudding Compartment*

“

Bu'n fuddiol
tu hwnt
cael help a
chyngor gan
reolwyr y
clwstwr.



BETH NESAF I'R PROSIECT?



TEITHIAU ASTUDIO AC YMWELIADAU CYFEIRIO



Dros y flwyddyn nesaf, bydd y clwstwr yn trefnu teithiau astudio i ddangos i aelodau'r clwstwr a rhanddeiliaid y posibiliadau a'r arferion gorau sy'n bodoli mewn mannau eraill. Gallem ddangos, er enghraifft, Food Valley Wageningen lle mae campws o academia, corfforaethau, sefydliadau ariannol ac entrepreneuriaid yn cydfodoli mewn cyd-destun technoleg a chyllid bwyd-amaeth. Wrth arddangos enghreifftiau o arferion gorau, bydd y rheini sy'n cymryd rhan yn cael cyfle i weld a chlywed gan y ffynonellau cyllid sy'n cefnogi cynlluniau. Felly, bydd cwrdd â chyllidwyr, sbardunwyr a chorfforaethau Ewropeaidd yn un o brif amcanion y teithiau astudio.

Bydd rhannu arferion gorau ymysg aelodau'r clwstwr a dysgu oddi wrth y naill a'r llall yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf, gydag aelodau'r clwstwr yn cynnal ymweliadau grŵp bach i rannu sut maent wedi goresgyn rhwystrau wrth dyfu.

ARGAELEDD EIDDO SY'N ADDAS I DDELIO Â BWYD



Un elfen allweddol o gynllunio capasiti yw a oes gan fusnes le i'w gynyddu yn y lle cyntaf. Mae llawer o aelodau'r clwstwr wedi tynnu sylw at yr angen am safleoedd mwy sy'n addas i ddelio â bwyd. Fodd bynnag, gydag ansicrwydd Covid 19, yn ogystal â'r rheoliadau lu sydd wedi'u gosod ar gyfleusterau gweithgynhyrchu bwyd a diod, mae'n anodd dod o hyd i le addas. Rydym ni, yn ôl yr angen, wedi helpu aelodau'r clwstwr i ddod o hyd i safleoedd addas. Serch hynny, teimlwn fod mwy o waith i'w wneud yn y maes hwn, drwy gynnig cipolwg ar y gofynion sy'n briodol i leoedd gweithgynhyrchu bwyd a diod a meithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid perthnasol, fel y timau datblygu economaidd mewn awdurdodau lleol ac asiantau eiddo masnachol.

CYNNWYS SYNIADAU ARIANNOL



Byddwn yn parhau i ddatblygu deunyddiau sy'n helpu aelodau'r clwstwr i wella eu syniadau a'u dealltwriaeth ariannol, ac rydym yn gweithio ar gyfres o fideos sy'n rhoi sylw i bynciau fel gwybodaeth ariannol, gwybodaeth reoli, modelu ariannol, rhagfynegi a rhwymedigaethau statudol.

Yn ogystal â hyn, rydym yn bwriadu ffurfio grŵp diddordeb arbennig er mwyn canfod a mynd i'r afael â meysydd penodol a chyffredin i helpu a datblygu gyda dealltwriaeth ariannol.

SYSTEMAU CYFRIFYDDU




Mae systemau cyfrifyddu fel Sage, Xero a QuickBooks yn systemau cyffredin sy'n cael eu defnyddio gan aelodau'r clwstwr. Yn aml iawn, maent yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth reoli ar gyfer busnesau bach a chanolig, ac felly mae'n hanfodol bod gan y busnesau hyn y system orau bosib i gael y wybodaeth orau allan ohonynt. Yn y dyfodol agos, bwriadwn ymgysylltu â thri gwahanol grŵp diddordeb arbennig er mwyn mynd i'r afael â'r heriau allweddol, yn ogystal â chael awgrymiadau a chynghor gan fusnesau ar gyfer delio â phecynnau cyfrifyddu. Yn y pen draw, y gobaith yw y bydd hyn yn helpu busnesau i fanteisio i'r eithaf ar eu gwybodaeth er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau amserol a gwybodus ar gyfer uwchraddio.




GAIR BACH I GLOI

Mae blwyddyn gyntaf y clwstwr wedi bod yn brysur wrth i'r tîm ddod i ddeall y rhwystrau unigol a chyfun i uwchraddio, yn ogystal â meddwl am ffyrdd o rannu arferion gorau, dysgu a magu hyder er mwyn i aelodau'r clwstwr allu cychwyn ar eu siwrnai uwchraddio neu fwrw ymlaen â hi.

Fel tîm, edrychwn ymlaen at barhau i weithio gydag aelodau'r clwstwr, ein grŵp cynghori, darparwyr cyllid a rhanddeiliaid er mwyn helpu cynhyrchwyr bwyd a diod i gyflawni eu dyheadau uwchraddio, a chefnogi twf y sector bwyd a diod anhygoel sydd gennym yng Nghymru.



CAPASITI



CYFALAF



CYMWYSEDDAU



HYDER

ATODIAD 1 GRŴP CYNGHORI'R CLWSTWR UWCHRADDIO CYNALIADWY:

JON LANGMEAD

Prif Swyddog Cyllid, Puffin Produce a Chadeirydd y Grŵp Cyngori



Jon, Prif Swyddog Cyllid Puffin Produce, yw Cadeirydd y Grŵp Cyngori. Dim ond un ar hugain oed oedd Jon pan gymhwysodd fel cyfrifydd, ac ers hynny mae wedi cael profiad eang o weithio gyda chwmnïau cyfrifyddu yn y deg uchaf a busnesau lleol. Ymunodd Jon â Puffin yn gynnar yn 2012, gan weithio gyda banciau ac archwilwyr Puffin, a helpu i sicrhau proffidioldeb ar gynnyrch cyfredol a chefnogi cynlluniau uchelgeisiol Puffin ar gyfer tyfu'r busnes.

HUW THOMAS

Rheolwr Gyfarwyddwr, Puffin Produce



Huw yw Rheolwr Gyfarwyddwr Puffin Produce, a aeth yn ôl at ei wreiddiau amaethyddol yn Sir Benfro yn 2009, ar ôl blynyddoedd o ymarfer proffesiynol ac ymchwil mewn meysydd cysylltiedig. Huw yw'r Rheolwr Gyfarwyddwr, ac ef sy'n gyfrifol am y tîm Gwerthu a Marchnata hefyd. Mae'n parhau i hyrwyddo cynnyrch o Gymru, boed hynny drwy ei label ei hun neu drwy frand premiwm Puffin, Blas y Tir. Mae hefyd yn sicrhau bod tyfwyr yn cael pris teg am eu cynnyrch, a bod Puffin yn "lle da a hapus i weithio ynddo." Mae Huw yn aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.

CHRIS TERRY

Cyfarwyddwr Cyllid, Peter's Food



Mae Chris yn Gyfrifydd Siartredig cymwys (ACA). Cyn ymuno â Peter's Food Service Ltd. ym mis Mawrth 2019, bu'n gweithio fel Prif Swyddog Cyllid mewn nifer o fusnesau gyda'u trosiant yn amrywio o £15m i £1b. Yn ddiweddar, mae Chris wedi cael ei gyflogi gan berchnogion busnes ecwiti preifat (Next Wave Partners a Stage Capital erbyn hyn), ond mae ganddo hefyd brofiad o weithio mewn strwythurau plc, preifat a chydweithredol.

LYNNE ROWLANDS

Perchennog, Daffodil Foods



Lynne Rowlands yw sylfaenydd a pherchennog Daffodil Foods. Mae'r cwmni wedi bod yn masnachu ers 2011 ac yn cyflenwi pwdinau oer, hufen tolch Cymreig a chynnyrch llaeth wedi'u heplesu i'r sectorau manwerthu a gwasanaethau bwyd. Mae busnes y cwmni'n tyfu, ac yn gwerthu bocsys te prynhawn Cymreig i gwsmeriaid yn syth o'u gwefan a drwy Amazon.

SARAH LEWIS

Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru, Lantra



Mae Sarah yn gweithio i Lantra ers 2005 ac wedi rheoli amrywiaeth o brosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru ar draws y gadwyn cyflenwi bwyd. Ar hyn o bryd, Sarah yw rheolwr prosiect Sgiliau Bwyd Cymru, sy'n cefnogi busnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod i gael y sgiliau iawn ar gyfer eu gweithwyr.

Clwstwr Uwchraddio Cynaliadwy

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2021-2022